COFNOD O GYFARFOD CYLLIDEBY CYNGOR A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MERCHER, 28 CHWEFROR 2024 AM 16:00

Yn bresennol

Councillor W Kendall – Maer/Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe |
| S J Bletsoe | J P D Blundell | E L P Caparros | N Clarke |
| R J Collins | H J David | C Davies | P Davies |
| S Easterbrook | M J Evans | N Farr | P Ford |
| J Gebbie | W R Goode | R M Granville | H Griffiths |
| S J Griffiths | D T Harrison | M L Hughes | D M Hughes |
| RM James | P W Jenkins | M R John | M Jones |
| M J Kearn | T Wood | C Lewis | RL Penhale-Thomas |
| J E Pratt | R J Smith | J C Spanswick | I M Spiller |
| T Thomas | J H Tidesley MBE | G Walter | A Wathan |
| A Williams | AJ Williams | H M Williams | I Williams |
| M J Williams | R Williams | E D Winstanley | |

Swyddogion:

Mark Shephard - Prif Weithredwr
Claire Marchant - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
Lindsay Harvey - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Janine Nightingale - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Carys Lord - Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid
Kelly Watson - Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol
Laura Griffiths - Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Rachel Keepins - Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Mark Galvin - Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Michael Pitman - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Technegol
Deborah Exton - Rheolwr Grŵp - Cyllid
Nigel Smith – Prif Gyfrifydd -

**Cyhoeddiad y Maer**

Cyn ystyried y busnes ffurfiol ar yr agenda, cyhoeddodd y Maer gyda chryn dristwch am farwolaeth y cyn Gynghorydd David White a fu farw yn dilyn salwch. Roedd parch mawr at David a bu gynt yn Faer Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Talodd Arweinyddion Grwpiau'r Cyngor bob un yn eu tro deyrnged i Mr. White a safodd pawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod am funud o dawelwch fel arwydd o barch i'r cyn Gynghorydd uchel ei barch hwn.

## 10. Ymddiheuriadau am absenoldebau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorwyr J Llewellyn-Hopkins a Chris Davies |
| Dyddiad y Penderfyniad | Ni wnaed penderfyniad |

## 11. Datganiadau o Fuddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Datganwyd y datganiadau o fuddiant personol canlynol:-<br><br>Y Cynghorydd R M Granville - Eitem 5 ar yr Agenda fel Llywodraethwr Ysgol<br>Y Cynghorydd R M Granville - Eitem 5 ar yr Agenda fel Llywodraethwr Ysgol<br>Y Cynghorydd J M Blundell - Eitem 3 ar yr Agenda fel Llywodraethwr Ysgol<br>Y Cynghorydd H Bennet - Eitem 3 ar yr Agenda gan fod y sefydliad sy’n ei chyflogi wedi ei nodi o fewn y toriadau arfaethedig i’r gyllideb<br>Y Cynghorydd M Williams - Eitem 3 ar yr Agenda fel Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Llidiard ac Eitem 4 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Cymuned Coety Uchaf a Llansanffraid-ar-Ogwr<br>Y Cynghorydd E Winstanley - Eitemau 3 a 6 ar yr Agenda fel cyflogai Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ac Eitem 5 ar yr Agenda fel Llywodraethwr Ysgol mewn dwy ysgol o fewn ardal ei Ward etholiadol<br>Y Cynghorydd J Pratt - Eitem 3 ar yr Agenda gan fod ei wraig yn athrawes yn Ysgol Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn gynrychiolydd ar ran yr undebau llafur<br>Y Cynghorydd Amanda Williams - Eitem 5 ar yr Agenda fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Coety |
| Dyddiad y Penderfyniad | Ni wnaed penderfyniad |

## 12. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2024-25 i 2027-28

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad er mwyn ceisio sicrhau cymeradwyaeth o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i 2027-28, a atodwyd yn Atodiad 3 (ynghyd ag atodiadau cysylltiedig), sy'n cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2024-28, cyllideb refeniw fanwl ar gyfer 2024-25 a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024-25 i 2033-34.<br><br>Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) arfaethedig yn gosod allan y blaenoriaethau o ran gwariant i'r Cyngor ar gyfer y 4 blynedd nesaf ynghyd â chyllideb fanwl ar gyfer 2024-25.<br><br>Rhoddodd grynodeb cynhwysfawr o'r adroddiad, gan amlygu'r canlynol, ymysg pwyntiau eraill:<br><br>• Dylai cyd-destun ariannol, deddfwriaethol a gwleidyddol y mae'r gyllideb ddrafft wedi'i pharatoi ynddo ochr yn ochr â gwybodaeth fanylach am y gwasanaethau gael eu darparu gan y Cyngor dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.<br>• Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig arfaethedig sy'n cael ei gyrru gan 13 o egwyddorion MTFS y Cyngor, ynghyd ag egwyddorion cyllidebol ychwanegol y gwnaed cais amdanynt gan y Cabinet ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod wedi'u datblygu gan y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, gan roi ystyriaeth i'r trafodaethau gafwyd gyda'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllidebol a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu y Cyngor a hefyd eu hargymhellion.<br>• Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar 19 Rhagfyr 2023 cyn i'r setliad llywodraeth leol dros dro gael ei gyhoeddi ar 20 Rhagfyr 2023.<br>• O ran y setliad dros dro i lywodraeth leol, roedd y cynnydd ar gyfer Cymru gyfan mewn Ariannu Allanol Agregau (AEF) yn 3.1%. Roedd y cynnydd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn 3%.<br>• Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am ariannu yn y dyfodol, er bod arwyddion yn dangos y bydd yn parhau i fod yn hynod o heriol.<br>• Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau ar gyfer cyfrifoldebau newydd na grantiau penodol i setliad dros dro llywodraeth leol.<br>• Y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024-25 yw £359.725 miliwn, ac mae hyn yn cynnwys gwasgfa ar y gyllideb o £11.856 miliwn, lleihad yn y gyllideb o £13.045 miliwn a chynnydd mewn treth y cyngor o 9.5%. Gosodwyd manylion y gyllideb ar gyfer 2024-25 yn Nhabl 10 yr adroddiad.<br>• Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn gosod allan targed arbedion mwyaf tebygol o £44.882 miliwn dros y 4 blynedd ariannol nesaf.<br>• Gwelwyd lleihad yng nghyllid cyfalaf y Cyngor o £28,000 i £7.980 miliwn.<br>• Mae gan y swyddog Adran 151 ddyletswydd i osod allan cyllideb sy'n gytbwys a chadarn.<br>• Ni ddisgwylir i'r setliad ariannol terfynol gael ei gyhoeddi hyd nes diwedd Chwefror. O ganlyniad i hyn, roedd y gyllideb yn cael ei chynnig ar sail y setliad dros dro a dderbyniwyd ym mis Rhagfyr 2023. Bydd unrhyw newidiadau yn y Setliad Terfynol, megis trosglwyddiad grantiau penodol, ac unrhyw ariannu |

| | |
|---|---|
| | ychwanegol, yn cael eu hadrodd amdanynt i'r Cyngor maes o law, ond ni fydd hyn yn effeithio ar lefel treth y cyngor.<br><br>I gloi, pwysleisiodd Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid wrth yr Aelodau mor heriol fu gosod cyllideb ar gyfer eleni o safbwynt llunio cyllideb gytbwys.<br><br>Adleisiwyd yr uchod gan y Dirprwy Arweinydd a mynegodd ei ddiolchgarwch i'r Swyddogion Cyllid am ddwyn ynghyd gyllideb gytbwys, a hefyd i'r Aelodau am eu cyfraniadau gwerthfawr i hyn drwy'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllidebol (BREP) a'r broses trosolwg a chraffu. Diolchodd yn ogystal i'r cyhoedd, a'r 2,000 ohonynt wnaeth roi eu barn ar gynigion Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, gyda rhai o'r argymhellion ganddynt wedi eu derbyn. Atgoffodd y Cyngor fod yr Awdurdod yn darparu dros 800 o gyfleusterau (fel rhan o'i gwasanaethau), oedd yn cynnwys addysg ar gyfer oddeutu 23,000 o ddisgyblion a chefnogaeth allweddol ar gyfer y rhai mwyaf bregus yn y gymdeithas, er enghraifft, plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lleoliadau Oddi Allan i'r Sir drud.<br><br>Yn eu tro, fe wnaeth yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd hefyd ddiolch i Aelodau o bob plaid am eu cyfraniadau, gan gynnwys argymhellion BREP drwy'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Cynghorwyd fod y gyllideb eleni wedi bod yn galetach i'w gosod nag yn ystod unrhyw flwyddyn arall. Roedd rhai o'r argymhellion a wnaed trwy'r broses graffu wedi cael eu cytuno arnynt, ond yn anffodus ni fu'n bosib cytuno i bob un ohonynt, oherwydd lefel y toriadau oedd angen eu gwneud yn gyffredinol. Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd yn benodol fod nifer o wahanol achosion o fod dan bwysau mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gan roi rhybudd pwyllog nad oedd unrhyw arwyddion y byddai'r rhain yn lleihau yn y dyfodol ar hyn o bryd.<br><br>Yna aeth yr Aelodau ymlaen i holi nifer o gwestiynau a mynegi pryderon i'r Cabinet a'r Swyddogion, yn arbennig felly Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, er enghraifft:<br><br>• Mynegwyd pryder ynghylch lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, yn arbennig felly os yw'r lefel yma o gynnydd yn parhau yn y blynyddoedd nesaf, ac y byddai o bosib yn arwain at amgylchiadau fyddai'n gwneud rhai pobl yn ddigartref gan na fyddent yn gallu talu'r bil hwn a biliau angenrheidiol eraill. Ystyriwyd felly y dylai'r rhain fod yn gyson ac yn gymesur wrth symud ymlaen;<br>• Cydnabu un Aelod effaith oddeutu 14 mlynedd o doriadau Llywodraeth y DU oedd wedi eu gorfodi ar awdurdodau lleol yn ystod cyfnod o gyni a bod rhai o'r nodau a'r amcanion oedd wedi eu cynllunio gan y Cyngor wedi gorfod cael eu gohirio neu eu diystyru'n llwyr yn y cyfnod hwn, oherwydd diffyg adnoddau. Roedd hyn gyfwerth â £75m neu 25% o gyfanswm cyllideb y Cyngor (yn y cyfnod hwn).<br>• Dywedodd un Aelod ei fod yn teimlo y byddai canran y toriad (h.y. 3%) i Gyllideb Addysg |

| | |
|---|---|
| | (Ysgolion) yn achosi i ysgolion fod â chyllidebau oedd yn dangos diffyg a byddai hynny yn ei dro yn peri iddynt orfod dwyn ynghyd Gynlluniau Adfer Diffyg o dros gyfnod o 3 neu 5 mlynedd, na fyddent, o bosib yn gallu eu hariannu, gyda thoriadau pellach yn cael eu rhagweld dros y blynyddoedd nesaf.<br>• Roedd gormod o risgiau Coch/Oren wedi eu nodi fel arbedion posib oedd yn ofynnol i'w gwneud (yn statws RAG) yn y dyfodol. Beth pe na bai'n bosib i'r rhain gael eu gwneud neu eu cyflawni?<br>• O ystyried bod gan y Cyngor orwariant eleni o oddeutu £10m, a chyda risg posib o orwariant pellach yn cael ei achosi yn y flwyddyn ariannol nesaf, pwysodd un Aelod ar i'r swyddogion edrych ar beth allai'r Cyngor ei wneud yn wahanol yn y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd oedd i ddod, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o orwario o'r math hwn.<br>• Bu i Aelod gydnabod y pwysau roedd Aelodau yn ei brofi, yn arbennig felly o gael ymrwymiadau y tu allan i'r awdurdod lleol, er enghraifft bod yn aelodau yn ogystal o gyrff allanol, sefydliadau eraill a hefyd bod yn Gynghorwyr Tref/Cymuned ay.y.b. Holodd sut oedd eu llesiant yn cael ei fesur a'i gefnogi;<br>• Gofynnodd Aelod wrth Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau i ystyried cytuno i sicrhau bod manylion terfynol y cynigion a osodwyd yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025/26 yn ffurfio rhan o'r cwestiynau yn ymgynghoriad cyhoeddus y flwyddyn nesaf (ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig);<br>• Roedd un Aelod yn gobeithio y byddai'r awdurdod lleol yn rhoi cynllun ar waith i leihau'r lefel o wariant oedd wedi'i ymrwymo i gefnogi'r digartref yn y Fwrdeistref Sirol:<br>• Gofynnodd Aelod, er gwaetha'r ffaith fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu nifer fawr o wahanol wasanaethau, a fyddai'r Cabinet yn cytuno, y byddai'r broses y flwyddyn nesaf i bob pwrpas yn dechrau o safle cyllidebol sylfaen sero;<br>• Mynegodd un Aelod bryder ynghylch y nifer o Ymgynghorwyr roedd y Cyngor yn eu defnyddio ar hyn o bryd, sef cyfanswm o 23 ohonynt. Roedd hyn yn gynnydd yn y nifer roedd yr Awdurdod wedi ei ddefnyddio yn flaenorol ar amser a roddwyd. Ceisiodd gael sicrwydd ein bod yn cael gwerth am arian drwy eu defnyddio, yn ogystal â gofyn am ba system wirio oedd yna er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian;<br>• Roedd Aelod yn ystyried ei bod hi bellach yn amser am ddiwygio llywodraeth leol, gan fod pob llywodraeth leol yn profi pwysau cyllidebol a dylai cynigion o'r fath gael eu gwneud gan yr awdurdod lleol trwy'r sianeli priodol;<br>• Roedd Aelodau yn falch o nodi na fyddai gorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei chau, fel rhan o gynigion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig;<br><br>Ar ddiwedd y drafodaeth ar yr eitem hon, pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol am gael pleidlais electronig ar argymhellion yr adroddiad.<br><br>Wedi i'r pleidleisio ddod i ben nodwyd bod canlyniad y bleidlais fe a ganlyn: |

| | |
|---|---|
| | Dros: 26<br>Yn erbyn: 20<br>Ymatal: 2<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 hyd 2027-28, yn cynnwys cyllideb refeniw 2024-25 a Rhaglen Gyfalaf 2023-23 hyd 2033-34. Yn arbennig, cymeradwywyd yr elfennau penodol canlynol:<br><br>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i 2027-28 (Atodiad 3 o'r adroddiad).<br>• Gofyniad Cyllideb Net o £359,725,154 yn 2024-25.<br>• Treth y Cyngor Band D ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr o £1,834.41 ar gyfer 2024-25 (Tabl 15 o adroddiad y MTFS).<br>• Cyllidebau 2024-25 fel y'u neilltuwyd yn unol â Thabl 10 ym mharagraff 4.1.3 o adroddiad y MTFS.<br>• Rhaglen Gyfalaf 2023-24 i 2033-34, yn atodedig yn Atodiad G o adroddiad y MTFS. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 28 Chwefror 2024 |

## 13. Treth y Cyngor 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi manylion i'r Cyngor am y gofyniad treth gyngor ar gyfer y Cyngor Bwrdeistref Sirol, yn dilyn argymhelliad y Cyngor i gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar 28 Chwefror 2024, ynghyd â gofynion Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned, ac i ofyn i'r Cyngor nodi'r tâl cyfanredol ar gyfer pob ardal Cyngor Cymuned a phob band treth gyngor ar gyfer 2024-25.<br><br>Eglurodd fod Paragraff 3.1.2 (g) o'r Rheolau Trefn Gyllidebol (FPRs) yn ei gwneud hi'n ofynnol iddi argymell lefel Treth y Cyngor oedd i'w chasglu ar gyfer y flwyddyn oedd i ddod. Mae'n rhaid i'r Cyngor, fel yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal hefyd gyflawni yr hyn sy'n ofynnol ganddo o dan Adran 33 a 34 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.<br><br>Roedd y canlynol yn bwyntiau allweddol oedd i'w nodi o'r adroddiad: |

| | |
|---|---|
| | • Cyfanswm y Dreth Gyngor sy'n ofynnol yw £124,495,342.<br>• Cyfanswm Treth y Cyngor sy'n ofynnol gan Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yw £101,746,816.<br>• Praesept Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yw £19,561,085.<br>• Cyfanswm Treth y Cyngor sy'n ofynnol gan Gynghorau Tref a Chymuned yw £3,187,441.<br>• Ffigwr cyfatebol Band D Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yw £1,834.41.<br>• Ffigwr cyfatebol Band D Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru yw £352.67.<br>• Praesept cyfartalog Cyngor Cymuned/Tref yw £57.47.<br>• Y cynnydd yn nhreth y cyngor yw:<br><br>Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr 9.5%<br>Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru 8.69%<br>Cyngor Tref a Chymuned Arferol 9.11%<br><br>PENDERFYNWYD: Yn amodol ar y Cyngor yn cymeradwyo'r gofyniad cyllideb net arfaethedig ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o £101,746,816 ar gyfer 2024-25 a Threth y Cyngor Band D ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o £1,834.41 ar gyfer 2024-25. Cytunodd y Cyngor i:<br><br>• nodi lefel y praesept gan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, fel y'i gosodir yn Nhabl 3.<br><br>• nodi cyfanswm taliadau Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Band D ar gyfer 2024-25 ar gyfer pob un o'r ardaloedd Cyngor Cymuned fel y'i hamlinellir yn Nhabl 2 a'r tâl cyfanredol ar gyfer pob ardal Cyngor Cymuned ar gyfer pob band treth y cyngor fel y'i hamlinellir yn Atodiad A yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 28 Chwefror 2024 |

**14. Y Strategaeth Gyfalaf 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid adroddiad, oedd yn cynghori bod Rheolau Trefn Gyllidebol y Cyngor (paragraff 3.5.1) yn gofyn am i'r Prif Swyddog Cyllid baratoi Strategaeth Gyfalaf i'w chyflwyno i'r Cyngor ei chymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r Strategaeth ddangos bod penderfyniadau gwariant cyfalaf a buddsoddiadau yn unol â'r amcanion gwasanaeth ac yn cymryd i ystyriaeth stiwardiaeth, gwerth am arian, arian, cynaliadwyedd a bod yn fforddiadwy |

| | |
|---|---|
| | mewn ffordd briodol.<br><br>Mae'n rhaid i'r Strategaeth Gyfalaf gydymffurfio gyda gofynion Cod Ariannol Arian Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).<br><br>Pwrpas yr adroddiad, ychwanegodd, oedd i gyflwyno Strategaeth Gyfalaf 2024-25 i 2033-34 i'w chymeradwyo gan y Cyngor, gan gynnwys Dangosyddion Materion Ariannol a Datganiad Blynyddol y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) 2024-25.<br><br>Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gosod egwyddorion arweiniol ar gyfer gwariant cyfalaf, a fframwaith ar gyfer rheoli cyllid cyfalaf, tra bod y Strategaeth Gyfalaf ar hyn o bryd yn seiliedig ar wybodaeth ariannol fel yr adroddwyd amdano yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Darparwyd y Strategaeth Gyfalaf yn Atodiad A yr adroddiad.<br>Gwnaed y sylwadau canlynol gan yr Aelodau mewn ymateb i Swyddogion a/neu'r aelod priodol o'r Cabinet:<br><br>• Gan gyfeirio at baragraff 3.1.2 yr adroddiad a'r Tabl a ddangoswyd yno, pam mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymrwymo £944k o'r gyllideb Refeniw i'r Rhaglen Gyfalaf. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 1% mewn Treth y Cyngor neu 1% o doriad yng Nghyllideb Addysg y Cyngor, er mwyn ariannu'r Rhaglen Gyfalaf, ar amser lle mae gennym £33.4m o lithriant o'r flwyddyn bresennol i'r nesaf;<br>• Cyfeiriodd un Aelod at y Bwrdd Rhaglen Cyfalaf oedd newydd ei gyflwyno a fyddai'n canolbwyntio ar brosiectau allweddol, yn arbennig y rheiny oedd yn gysylltiedig gyda llithriant yn y Rhaglen Gyfalaf. Awgrymodd y dylai'r Bwrdd hwn gael pwerau i wneud penderfyniadau, a hefyd bod aelodau o'r Cabinet yn bresennol fel aelodau ohono. Ychwanegodd ymhellach y dylid rhoi ystyriaeth i'r Bwrdd hwn gael trosolwg o'r Rhaglen Gyfalaf gyfan, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar brosiectau unigol;<br>• Anogwyd yr Aelod i weld, fel rhan o argymhellion yr adroddiad, Rhaglen Foderneiddio Ysgolion y Cyngor ac yn benodol, yr ysgolion newydd oedd yn cael eu hadeiladu yn ardal Corneli.<br><br>Mewn perthynas â phwynt bwled 1. uchod a'r cyfraniad Refeniw o £944k i'r Rhaglen Gyfalaf, cadarnhaodd Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid y byddai'n anfon manylion hyn i'r holl Aelodau, gan gynnwys manylion am y cynlluniau unigol a'r cyfraniad ariannol i'r rhain y tu allan i'r cyfarfod. Roedd rhai o'r cyfraniadau yn dod gan ysgolion neu eu bod yn waith cyfalaf o ran natur a'u bod felly yn cael eu dangos yn y Rhaglen Gyfalaf ond eu bod yn cael eu hariannu o gyllideb Refeniw oedd yn bodoli eisoes. Roedd y rhain i gyfrif am £668k o'r £944k oedd yn dangos ar gyfer 2023/2024 |

| | |
|---|---|
| | Byddai'r cyfraniadau hyn wedi cael eu cytuno arnynt gan aelodau drwy'r adroddiad diweddaru rheolaidd i'r Cyngor.<br><br>Yn olaf, datganodd bod swm o 0.221m wedi ei ychwanegu at y rhaglen mewn perthynas ag ystod o waith mân oedd wedi'u cynllunio, a oedd yn wariant cyfalaf yn hytrach na refeniw, felly roedd y rhain erbyn hyn wedi cael eu cynnwys fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf. Byddai'r rhain yn cael eu hariannu o gyllideb refeniw gwaith mân presennol.<br><br>PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2024-25 i 2033-34, gan gynnwys Dangosyddion Materion Ariannol 2024-25 i 2033-34 a Datganiad Blynyddol y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) 2024-25 yn Atodiad A yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 28 Chwefror 2024 |

## 15. Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad, gan geisio cymeradwyaeth y Cyngor o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMS) 2024-25, sy'n cynnwys:<br><br>Strategaeth Benthyca 2024-25<br>Strategaeth Buddsoddi'r Trysorlys 2024-25<br>Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod 2024-25 i 2026-27.<br><br>Darparwyd y Strategaeth Gyfalaf yn Atodiad A yr adroddiad.<br><br>Eglurodd fod Paragraff 22.2 o'r Rheolau Trefn Gyllidebol (FPR) yn gofyn am i'r Prif Swyddog Cyllid fod yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno Strategaeth Rheoli'r Trysorlys i'r Cyngor ei chymeradwyo. Mae Paragraff 22.3 o'r FPR o fewn Cyfansoddiad y Cyngor hefyd yn gofyn am i bob buddsoddiad a throsglwyddiadau benthyca gael eu hymgymryd â hwy yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor, fel y'i cymeradwyir gan y Cyngor.<br><br>O ran crynodeb Gweithredol o'r adroddiad, yr oedd fel a ganlyn:<br><br>• Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25 (TMS) yn ymgorffori'r Strategaeth Fenthyca, |

| | |
|---|---|
| | Strategaeth Fuddsoddi a Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys.<br>• Mae gweithgareddau trysorlys y Cyngor yn cael eu rheoleiddio gan ddeddfwriaeth a Chod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn i'r gofynion hyn.<br>• Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn y flwyddyn ariannol.<br><br>Yn wyneb y ffaith fod rhai Cynghorau eraill yn cael amser caled gyda'u harian, dywedodd un Aelod ei fod yn cael sicrwydd bod buddsoddiadau'r Cyngor gyda rhai awdurdodau eraill yn ddiogel, o ystyried yr ansicrwydd ariannol roedd sefydliadau ar hyd a lled y DU yn eu profi ers peth amser nawr.<br><br>Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, bod yr Adran Gyllid yn cael eu harwain gan Gyfnodolion Rheoli Cyllid a'u cynghorwyr Rheoli'r Trysorlys mewn perthynas â ble i fuddsoddi arian ac roedd yr Awdurdod hefyd yn edrych yn ofalus ar faint roedd yn ei fuddsoddi ar unrhyw adeg, ac am ba hyd, a hefyd er mwyn lleihau unrhyw risg oedd yn gysylltiedig gyda'r buddsoddiad.<br><br>Gofynnodd un Aelod yn ogystal pa effaith oedd y newidiadau yn y gyfradd chwyddiant wedi ei gael ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dros y cyfnod diweddar, ac ymatebwyd i hyn gan y Rheolwr Grŵp, y Prif Gyfrifydd.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylai'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Gyfalaf 2024-25, gan gynnwys Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys 2024-25 i 2026-27 yn Atodiad A yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 28 Chwefror 2024 |

## 16. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad y Penderfyniad | Ni wnaed penderfyniad |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon os gwelwch yn dda